

# ARWEINYDD POLISI AC YMCHWIL

**Dyddiad cau: 23.59pm ddydd Llun 12 Ionawr 2026**

belong
THE COHESION AND INTEGRATION NETWORK

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

# Croeso

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â **Belong – Y Rhwydwaith Cydlyniant ac Integreiddio** – fel **Arweinydd Polisi ac Ymchwil**. Mae hwn yn gyfle cyffrous i arwain prosiectau sy’n cael effaith fawr ac sy'n llywio sgyrsiau cenedlaethol ar gydlyniant ac integreiddio. Rydym yn chwilio am rywun sy'n ffynnu mewn amgylchedd deinamig ac sy'n frwd dros greu newid parhaol drwy dystiolaeth a pholisi.

Mae gennym broffil cenedlaethol cryfach, strategaeth feiddgar ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod, ac Uwch Dîm Arwain uchelgeisiol, felly mae’n adeg eithriadol i ymuno â ni. Wrth i Belong ddechrau ar y cam nesaf yn nhwf y rhwydwaith, rydym ni'n benderfynol o ddyfnhau ein heffaith, cryfhau ein gwydnwch, a hyrwyddo cydlyniant ac integreiddio ar raddfa fawr.

Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn arweinydd strategol ac ystyriol sydd â hanes cryf o ran polisi ac ymchwil ac sy'n hyderus wrth reoli prosiectau cymhleth, cynhyrchu allbynnau o ansawdd uchel ac ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid. Bydd gennych chwilfrydedd deallusol, ymwybyddiaeth wleidyddol ac ymrwymiad i degwch a chynhwysiant. Hefyd, bydd gennych sgiliau cyfathrebu cadarn a'r gallu i droi tystiolaeth yn weithredu a chyfrannu at arwain agweddau Belong. Os mai chi yw’r person yma, a’ch bod chi’n edrych ymlaen at helpu i siapio dyfodol Belong a sbarduno newid cadarnhaol ledled y DU, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

belong
THE COHESION AND INTEGRATION NETWORK

# Gwybodaeth am Belong

Belong yw prif rwydwaith nid-er-elw y Deyrnas Unedig ym maes cydlyniant cymdeithasol. Rydym yn gweithio gyda chymunedau, awdurdodau lleol, a phartneriaid cenedlaethol i gryfhau ymddiriedaeth, yr ymdeimlad o berthyn, a gwydnwch drwy raglenni arloesol, ymchwil, a dylanwad polisi. Mae ein haelodaeth yn tyfu ac mae'n cynnwys awdurdodau lleol, elusennau, cymdeithas sifil, a busnes.

## Dyma'r hyn y mae Belong yn ei wneud:

- Gwaith cydlyniant a gwaith rhyngddiwylliannol mewn lleoedd penodol gydag awdurdodau lleol a chymunedau.
- Gwaith ymchwil a pholisi i gynyddu'r sylfaen o dystiolaeth a dylanwadu ar newid cenedlaethol.
- Hyfforddiant, ymgynghoriaeth, a datblygu arweinyddiaeth.
- Rhannu gwybodaeth, rhwydweithiau, digwyddiadau dysgu, ac arwain agweddau.

Rydym yn gydweithredol, yn cael ein harwain gan dystiolaeth, ac wedi ymrwymo i gydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant.



# Ein Tim

Yn Belong, yr hyn sy’n uno ein tîm yw ein hymrwymiad ar y cyd i greu cymdeithas fwy cynhwysol a chysylltiedig. Rydym yn dod â gweithwyr proffesiynol ynghyd sydd â chefndir mewn ymchwil, ymgysylltu â'r gymuned, cyfathrebu, gwaith hwyluso, a pholisi. Rydym yn cydweithio ag awdurdodau lleol, sefydliadau cymdeithas sifil, sefydliadau academaidd, a phartneriaid cenedlaethol i gryfhau cydlyniant cymdeithasol ledled y DU.

# Buddion

- 30 diwrnod o wyliau y flwyddyn (yn ogystal â gwyliau banc)
- Gweithio’n hybrid
- Tâl salwch uwch
- Tâl mamolaeth a thadolaeth uwch



# Gwybodaeth am y Swydd

**Teitl y swydd:** Arweinydd Polisi ac Ymchwil
**Oriau gwaith:** Llawn-amser
**Lleoliad:** Ledled y DU gan deithio'n rheolaidd
**Math o gontract:** Parhaol
**Cyflog:** £55,000–£60,000

Byddwch yn dylunio ac yn darparu prosiectau ymchwil a pholisi sy'n llywio arferion gwaith ac yn dylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

## Prif Gyfrifoldebau

### Arwain ar Bolisi ac Ymchwil

- Arwain y gwaith o ddylunio a darparu prosiectau polisi ac ymchwil, gan sicrhau ansawdd, perthnasedd ac effaith
- Cynhyrchu briffiau polisi, adroddiadau, ymatebion i ymgyngoriadau a darnau sy'n arwain agweddau
- Troi canfyddiadau ymchwil yn argymhellion y gellir eu rhoi ar waith ar gyfer llunwyr polisïau ac ymarferwyr
- Sicrhau bod prosiectau'n gynhwysol, yn gyfranogol ac yn seiliedig ar brofiad bywyd
- Monitro datblygiadau polisi a chyfrannu at leoli strategol a gwylio'r gorwel

### Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

- Meithrin a chynnal perthnasoedd â llunwyr polisïau, ymchwilwyr, cyllidwyr ac arweinwyr y sector
- Cynrychioli Belong mewn cyfarfodydd allanol, mewn digwyddiadau ac ar rwydweithiau
- Cefnogi mentrau ymchwil a pholisi cydweithredol gyda phartneriaid a chomisiynwyr
- Cyfrannu at ledaenu gwaith Belong drwy ddigwyddiadau, y cyfryngau a sianeli digidol

### Tasgau Mewnol

- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil i ddatblygu strategaeth Belong i ddylanwadu ar bolisïau
- Cyfrannu at ddysgu sefydliadol a chydweithio ar draws timau
- Helpu i ddatblygu cynigion ac ymgysylltu â chyllidwyr
- Bod yn rheolwr llinell i staff iau neu swyddogion cyswllt yn ôl yr angen

Sylwch: Rhestr enghreifftiol yw hon, ac nid yw'n cynnwys popeth. Mae'n bosibl y bydd gofyn i ddeiliad y swydd ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol sy'n cyd-fynd â'r swydd.

# Amdanoch Chi

## Rydym yn chwilio am arweinydd strategol ac ystyriol sydd â:

- Phrofiad diamheuol o arwain polisi a rhaglenni ymchwil gymhwysol
- Profiad o weithio mewn neu gyda llywodraeth, melinau trafod neu sefydliadau eiriolaeth
- Sgiliau cadarn o ran dadansoddi ac ysgrifennu
- Gwybodaeth am gydlyniant, integreiddio a datblygiad cymunedol
- Sgiliau rhagorol o ran trefnu a rheoli prosiectau
- Ymwybyddiaeth o ddulliau ymchwil gyfranogol a chynhwysol
- Profiad o gynhyrchu incwm neu ddatblygu cynigion
- Cymhwyster perthnasol mewn polisi cyhoeddus, ymchwil gymdeithasol neu faes cysylltiedig
- Gallu i droi syniadau cymhleth yn negeseuon hygyrch
- Ymwybyddiaeth wleidyddol a chwilfrydedd deallusol
- Sgiliau cadarn o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid a meithrin perthynas

## Rhinweddau Personol

- Llawn brwdfrydedd dros wella cydlyniant ac integreiddio yn y DU
- Strategol ac yn canolbwyntio ar atebion
- Cydweithredol a chynhwysol
- Ymarferol, dibynadwy ac yn canolbwyntio ar y manylion
- Ymrwymiad i ddatblygiad personol a phroffesiynol
- Gallu ffynnu mewn amgylchedd prysur sy'n esblygu





# Y Broses o Wneud Cais

**Dyddiad cau: 23.59pm ddydd Llun 12 Ionawr 2026**
**Cyn-gyfweliadau cyntaf: 5 & 6 Chwefror, ar-lein**
**Ail-gyfweliadau: 13 Chwefror, ar-lein**

## Sut i gyflwyno cais

I wneud cais, cyflwynwch eich CV a llythyr eglurhaol sy'n nodi sut rydych chi'n bodloni manyleb y person i recruitment@belongnetwork.co.uk gan roi ‘Application to the role of Policy & Research Lead’ yn deitl i’r e-bost.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os hoffech chi drefnu trafodaeth gychwynnol, anffurfiol am y swydd, cysylltwch â recruitment@belongnetwork.co.uk.





belongnetwork.co.uk

linkedin.com/the-belong-network

twitter.com/BelongNetwork

Elusen gofrestredig: 1180761



belong
THE COHESION AND INTEGRATION NETWORK

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND